



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Amcangyfrif Statudol

2019-20

Cyflwynwyd i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 19 o atodlen 2 i
Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1 Cyflwyniad

- 1.1 Sail yr Amcangyfrif**
- 1.2 Y cefndir i greu fy rôl**
- 1.3 Fy Nyletswydd Cyffredinol a Swyddogaethau Statudol**
- 1.4 Pwysau ar adnoddau o'r cychwyn**

2 Ymagwedd tuag at Adnoddau ar gyfer gweithrediadau ym Mlynnyddoedd 1-3

- 2.1 Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn**
- 2.2 Gwerth ychwanegol a'r Effaith a gafwyd hyd yn hyn**

3 Heriau o'n blaenau

- 3.1 Diwallu fy nyletswyddau statudol i fonitro ac asesu'r cynnydd y mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud tuag at eu hamcanion llesiant**
- 3.2 Effaith negyddol ar ansawdd a lefel fy nghefnogaeth a chynghor i Gyrff Cyhoeddus**
- 3.3 Cefnogi'r newid diwylliannol sydd ei angen er mwyn ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**
- 3.4 Yr hyn mae Cyrff Cyhoeddus yn ei ddweud wrthyf am beth maen nhw am ei gael gan fy swyddfa**
- 3.5 Cwmpas fy nghylch gorchwyl yn parhau i ehangu yn ymarferol**
- 3.6 Siarter Datblygu Cynaliadwy**

4 Fy Nghais Cyllido 2019-20

- 4.1 Fy sefyllfa ariannol bresennol a'm polisi cronfeydd wrth gefn**
- 4.2 Cais am Gyllid opsiwn 1**
- 4.3 Cais am Gyllid opsiwn 2**
- 4.4 Cais am Gyllid opsiwn 3**

5 Fy Amcangyfrif Blynnyddol o gostau fesul opsiwn ar gyfer 2019-20

6. Casgliad

1 Cyflwyniad

1.1 Sail yr Amcangyfrif

Cyflwynir yr amcangyfrif hwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 yn unol â pharagraff 19 o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Darpariaethau Canlyniadol) 2015. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru archwilio'r amcangyfrif hwn a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol gydag unrhyw addasiadau y maent o'r farn eu bod yn briodol.

Paratoir yr amcangyfrif ar sail adnoddau ac mae'n cynnwys gwariant refeniw a chyfalaf a ragwelir gan gynnwys eitemau nad ydynt yn arian parod. Mae hefyd yn cynnwys cysoni â'r gofyniad net am arian parod neu gymorth grant yr wyf yn disgwyl ei dderbyn gan Weinidogion Cymru.

1.2 Y cefndir i greu fy rôl

Creodd Gweinidogion Cymru fy rôl a'm swyddfa gyda darn uchelgeisiol o ddeddfwriaeth i sicrhau newidiadau cadarnhaol yn y ffordd mae cyrff cyhoeddus yn gweithio yng Nghymru a dangos ymrwymiad Cymru i Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.

Rhoddodd y ddeddfwriaeth hon ddyletswyddau a phwerau eang i'm rôl i er mwyn helpu gyda'r dasg hon. Mae Gweinidogion yn cydnabod pŵer y Ddeddf i gadw Cymru ar flaen y gad o ran cynnydd tuag at NDC y CU ac maent yn gweithio gyda gweision cyhoeddus i wella profiad pobl o wasanaethau cyhoeddus yn nes at adref yma yng Nghymru.

1.3 Fy Nyletswydd Cyffredinol a Swyddogaethau Statudol

Fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, mae gennyf dasg aruthrol:

- (a) hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy, yn arbennig er mwyn-
 - (i) gweithredu fel gwarchodwr gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, a
 - (ii) annog cyrff cyhoeddus i roi rhagor o ystyriaeth i effaith hirdymor yr hyn a wnânt, a
- (b) at y diben hwnnw, monitro ac asesu cyflawniad yr amcanion llesiant a osodir gan gyrrff cyhoeddus.

Fy swyddogaethau statudol yw:

- (1) Caiff y Comisiynydd, wrth gyflawni dyletswydd gyffredinol y Comisiynydd-
 - (a) ddarparu cyngor neu gymorth i gorff cyhoeddus (gan gynnwys darparu cyngor ar newid hinsawdd);

- (b) darparu cyngor i Archwilydd Cyffredinol Cymru ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy;
- (c) darparu cyngor neu gymorth i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus ynghylch paratoi ei gynllun llesiant lleol (gweler adran 42);
- (ch) darparu cyngor neu gymorth i unrhyw berson arall y mae'r Comisiynydd o'r farn ei fod yn cymryd camau (neu'n dymuno cymryd camau) a allai gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant;
- (d) hybu'r arferion gorau ymhlith cyrff cyhoeddus wrth iddynt gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;
- (dd) hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith cyrff cyhoeddus o'r angen i gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;
- (e) annog cyrff cyhoeddus i gydweithio ac i weithio gyda phersonau eraill pe gallai hynny eu cynorthwyo i gyflawni eu hamcanion llesiant;
- (f) ceisio cyngor gan banel cynghori (gweler adran 26) mewn perthynas ag arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiynydd.

(2) Caiff y Comisiynydd ymgymryd â gwaith ymchwil neu astudiaethau eraill mewn perthynas â'r canlynol—

- (a) i ba raddau y mae'r nodau llesiant a'r dangosyddion cenedlaethol yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy,
- (b) i ba raddau y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei hystyried yn y dangosyddion cenedlaethol,
- (c) yr egwyddor datblygu cynaliadwy ei hun (gan gynnwys sut y cymhwysir yr egwyddor i osod a chyflawni amcanion llesiant), a
- (ch) unrhyw beth sy'n gysylltiedig ag unrhyw un neu ragor o'r pethau hynny sy'n effeithio ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru (neu unrhyw ran o Gymru).

1.4 Pwysau ar adnoddau o'r cychwyn

Rwyf yn gwybod ers y cychwyn bod lefelau fy nghyllid hanesyddol yn seiliedig ar Asesiad Effaith Rheoleiddiol pan nad oedd dyletswyddau'r Comisiynydd mor helaeth â'r rhai a nodir uchod.

Fe'u gosodwyd yn wreiddiol fel a ganlyn:

'Craffu ar strategaethau lleisiant cenedlaethol a lleol; darparu cyngor a chymorth, cynnal adolygiadau; ymgysylltu ac ymgynghori; cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad blynyddol; a chynhyrchu a chyhoeddi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.'

Mae'n bosibl hefyd na lawn sylweddolwyd ehangder y dasg a pha mor anodd yw creu'r newid diwylliannol a gweithdrefnol sylfaenol sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf.

Yn dyngedfennol, ychwanegwyd dyletswydd statudol allweddol i fonitro ac asesu i ba raddau y cyflawnir amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus *ar ôl* i'r asesiad effaith rheoleiddiol gael ei gwblhau. Felly nid yw'r adnoddau statudol hyn yn cael digon o

adnoddau. Gyda 345 wedi eu gosod gan y pedwar deg pedwar corff cyhoeddus, mae hyn yn fater sylweddol o ran cyflawni'r dyletswyddau a osodwyd i mi yn y Ddeddf.

2 Ymagwedd tuag at Adnoddau ar gyfer gweithrediadau ym Mlynnyddoedd 1-3

2.1 Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn

Ym mlynnyddoedd 1-3, bu modd ymdopi â'r diffyg cyllid hwn. Rwyf wedi torri'r got yn ôl y brethyn yn hynny o beth ac wedi canolbwyntio ar sefydlu fy Swyddfa a defnyddio fy swyddogaethau statudol yn cefnogi a chynghori cyrff cyhoeddus ynglŷn â gofynion y Ddeddf.

Gan ddefnyddio tanwariant o gyllideb blwyddyn un a oedd yn deillio'n bennaf o'r amserlenni recriwtio staff, sefydlais raglen bartneriaeth arloesol wedi'i hariannu ar y cyd gyda saith sefydliad i weithio gyda mi i ddarparu cyngor ac arweiniad i gyrff cyhoeddus. Mae hyn a phartneriaethau eraill wedi dod â £650,000 ychwanegol tuag at gyflawni fy nghylch gorchwyl mewn perthynas â chyngor a chefnogaeth. Rwyf wedi bod yn graff wrth adeiladu partneriaethau gyda sefydliadau eraill sy'n cyfrannu at y gwaith hwn. Er enghraifft, rwyf yn datblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Phrifysgol Caerdydd sy'n talu cost darn penodol o waith sy'n canolbwyntio ar roi sylw manylach i amcanion llesiant sy'n ymwneud â sgiliau.

Yn 2018-19, rwy'n parhau i dynnu ar y cronfeydd wrth gefn hyn ac rwyf yn rhagweld gwariant o £1,768m, sef £308k (30%) yn fwy na'r £1.46m a ddyrannwyd i mi eleni. Fodd bynnag, mae'r cronfeydd wrth gefn hyn yn gostwng a bydd yr arian sydd ar gael ar gyfer 2019-20 yn ychwanegol at yr £1.46 miliwn o gymorth grant disgwylidig yn gostwng i £53k, sef un rhan o chwech o'r cyfraniad.

2.2 Gwerth ychwanegol a'r Effaith a gafwyd hyd yn hyn

Rwy'n credu bod fy swyddfa wedi dangos cryn werth am arian gan sicrhau effaith sylweddol a darparu cefnogaeth i nifer fawr o sectorau ac ar ystod eang o faterion. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cyngor i'r Llywodraeth ar y broses gyllidebol, gan gynnwys gwaith ar y diffiniad o atal a ddefnyddiwyd yng nghyllideb eleni
- Cyngor a chymorth i Dîm Cynllunio'r GIG ar Gynlluniau Tymor Canolig Integredig
- Cyngor ac aelodaeth o Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Arloesi Digidol. Mae fy swyddfa wedi trefnu a chyflwyno'r holl weithgareddau cynnwys ac ymgysylltu ar gyfer y Grŵp hwn
- Cyngor ar y Gronfa Arloesi Tai (i'r Llywodraeth ac i'r Sector Tai)

- Diwygio Polisi Cynllunio Cymru – ailysgrifennodd fy nhîm rannau sylweddol o'r polisi newydd. Rydym wedi darparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer y sector. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r Arolygiaeth Gynllunio i weithio trwy astudiaethau achos gyda hwy er mwyn egluro sut y dylid cymhwyso'r Ddeddf
- Diwygio'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru - fe wnaeth fy nhîm fuddsoddi llawer iawn o gefnogaeth ar gyfer ailysgrifennu hyn gyda swyddogion er mwyn sicrhau cysondeb gyda'r Ddeddf
- Cyngor statudol i 19 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Proses Gaffael Masnachfaint y Rheilffyrdd - mae fy swyddfa wedi darparu cefnogaeth sylweddol i Trafnidiaeth Cymru ac i gynigwyr er mwyn sicrhau bod yr ymarfer caffael yn cwrdd â'r dyletswyddau o dan y Ddeddf. Mae'r gwaith hwn yn parhau trwy gefnogaeth barhaus a ddarperir wrth i'r cynnig gael ei weithredu
- Darparu cefnogaeth i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ar ddatblygu arweinyddiaeth a newid diwylliannol yn y gwasanaeth sifil
- Bod yn aelod o'r Grŵp Strategaeth Gordewdra
- Bod yn aelod o Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr
- Cefnogaeth i Adolygiad y Llywodraeth o Gaffael gan gynnwys gwaith penodol gyda'r GCC ar gynlluniau peilot Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cefnogaeth sylweddol i Lywodraeth Cymru ar Ddatgarboneiddio gan gynnwys hwyluso gwaith cynnwys ac ymgysylltu
- Cefnogaeth i'r Bargeinion Dinesig er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'r Ddeddf yn eu rhaglenni

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac nid yw'n cynnwys y cyngor dydd i ddydd y gofynnir i ni ei ddarparu. Yn ystod y tri mis diwethaf, mae fy Swyddfa wedi derbyn 44 o geisiadau am gyngor o'r fath.

3 Heriau o'n blaenau

3.1 Diwallu fy nyletswyddau statudol i fonitro ac asesu'r cynnydd y mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud tuag at eu hamcanion llesiant

Eleni y mae fy nyletswydd monitro ac asesu yn dod yn weithredol mewn gwirionedd. Bydd cyrff cyhoeddus yn cyhoeddi cynnydd ar eu hamcanion llesiant am y tro cyntaf fel rhan o'u proses adrodd flynyddol ar gyfer 2018-19. Rwyf fi a'm tîm wedi bod yn ymchwilio er mwyn penderfynu sut byddwn ni'n cyflawni'r ddyletswydd hon mewn partneriaeth â Swyddfa Archwilio Cymru ac wedi cynnwys cyrff cyhoeddus yn y gwaith o ddatblygu erfyn hunanasesu, fel y gallwn weithio o fewn fy lefelau ariannu cyfredol.

Derbynnir yn gyffredinol bod yr amcangyfrifon o gost rhan monitro ac asesu fy nyletswydd wedi bod yn rhy isel. Cefnogir y farn hon gan [Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Aseiad Effaith Rheoleiddiol Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) Rhagfyr 2014](#) a

oedd yn argymhell: "dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymhellach oblygiadau ariannol priodrolau'r Archwilydd Cyffredinol, y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru o ran monitro ac asesu'r graddau y mae'r amcanion llesiant a bennir gan gyrff cyhoeddus yn cael eu bodloni".

Rwy'n buddsoddi £123,000 wrth ddatblygu'r dull hwn yn 2018-19 ac rwyf wedi dyrannu £85,000 ar gyfer 2019-20 ac £82,000 ar gyfer 2020-21 er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon o fewn fy nghyllid cymorth grant dangosol. Hyd yn hyn, gwariwyd y cyllid hwn ar fy swyddogaethau cefnogi a chynghori eraill i gyrff cyhoeddus.

Sut mae hyn yn cymharu â chyllid ar gyfer dyletswydd statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan y Ddeddf hon?

Yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, nododd Swyddfa Archwilio Cymru bod y costau ychwanegol i'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer dyletswyddau monitro ac asesu ar gyfer y cylch pum mlynedd cyntaf yn dod i gyfanswm o £764,000. Roedd cyfrifiadau'r Archwilydd Cyffredinol yn amcangyfrif y byddai'r rhain yn sylweddol uwch, sef £1,375,200. Mae'n bwysig nodi mai ffigur ar gyfer diwallu'r gofyniad i archwilio'r pum ffordd o weithio ym mhob corff cyhoeddus yw hwn yn hytrach na'r 345 o amcanion llesiant. Mae'n bwysig nodi hefyd bod eu ffigurau ar gyfer dyletswyddau newydd yn ychwanegol at yr adnoddau sydd ganddynt eisoes ar lawr gwlad ar gyfer archwilio perfformiad - adnoddau nad oedd gan Gomisiynydd Swyddfa'r Dyfodol.

At hynny, mae niferoedd enfawr yr amcanion llesiant yn ychwanegu at anhawster y dasg gyda 345 o amcanion llesiant wedi'u pennu gan y 44 o gyrff cyhoeddus a ddaw dan gwmpas y Ddeddf ac mae bodloni'r dyletswyddau i fonitro ac asesu mewn ffordd ystyrlon yn hynod heriol.

3.2 Effaith negyddol ar ansawdd a lefel fy nghefnogaeth a chynghori i Gyrff Cyhoeddus

Mae gwaith paratoadol ar gyfer y ddyletswydd monitro ac asesu bellach wedi cychwyn ac yn dargyfeirio adnoddau oddi wrth gyngor a chymorth i Gyrff Cyhoeddus. Rwyf nawr yn gwrthod ceisiadau am gyngor a chymorth gan gyrff cyhoeddus - rhywbeth nad wyf wedi ei wneud yn ystod y 2 flynedd gyntaf o weithredu. Mae'r ceisiadau hyn yn cynyddu, ac ni fydd capasiti gennyf i gefnogi a chynghori Cyrff Cyhoeddus i'r un graddau ag yr wyf wedi gwneud hyd yma ac yn y ffordd sy'n angenrheidiol ac yn ddisgwyliedig gan Weinidogion er mwyn ysgogi'r newidiadau ymddygiad sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

Mae fy Swyddfa wedi darparu cefnogaeth sylweddol ar gludiant, cynllunio, cynllunio iechyd, cyllid Llywodraeth Cymru a datgarboneiddio yn ogystal â chynnal rhaglen ymgysylltu enfawr ein hunain sydd wedi dod â ni i gysylltiad â thros 8,000 o bobl newydd. Fodd bynnag, mae angen llawer mwy na chodi ymwybyddiaeth er mwyn i'r newid diwylliannol sydd ei angen ddigwydd.

Amlygwyd hyn yn y gwaith diweddar yr wyf wedi'i wneud gyda Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r canllawiau ar gyfer cynlluniau trafndiaeth (Arweiniad ar Arfarnu Trafndiaeth Cymru) lle roedd fy swyddfa yn darparu cefnogaeth ddwys wrth ddatblygu'r canllawiau newydd a lle maent wrthi nawr gyda'r Adran Drafndiaeth yn adolygu sut maent yn cael eu defnyddio. O adolygu'r setiau cyntaf o astudiaethau achos, mae'n amlwg bod diffyg dealltwriaeth sylweddol o'r canllawiau newydd a'r rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y sector hwn. Cefnogir y canfyddiad hwn gan adroddiad diweddar Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau:

Casgliad 14. Mae'r dulliau rhagweld traddodiadol a'r dull traddodiadol o asesu manteision cynlluniau ffyrdd newydd yn cael eu herio fwyfwy gan ymchwil economaidd newydd, ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru - a deddfwriaeth - gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i Lywodraeth Cymru weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu ei ffordd o feddwl yn y maes hwn, a datblygu offer newydd i asesu effaith gyfannol gwelliannau i ffyrdd a gwaith i'w cynnal a'u cadw.

Casgliad 15. Mae'r Arweiniad newydd ar Arfarnu Trafndiaeth Cymru (WelTAG2017) wedi cael ei lunio ar y cyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau bod cynlluniau trafndiaeth newydd yn rhoi ystyriaeth lawn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a phopeth y mae'n ei olygu. Bydd sicrhau bod cyrff cyhoeddus, a'u contractwyr, yn deall ac yn dilyn yr arweiniad yn allweddol i'w lwyddiant.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cymorth ar gael i sicrhau bod yr Arweiniad newydd ar Arfarnu Trafndiaeth Cymru yn cael ei ddeall yn gyffredinol, ac yn cael ei roi ar waith gan gyrff cyhoeddus, a chontractwyr sy'n gweithio ar eu rhan.

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau y dylai pob prosiect ffordd newydd fod yn agored i gael ei herio er mwyn sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael ei chymhwyso'n drwyadl yn y cynllun. Os yw'r Arweiniad ar Arfarnu Trafndiaeth Cymru yn cael ei ddilyn, dylai hyn ddigwydd yn ystod pob cam. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio detholiad bach o brosiectau i asesu i ba raddau y mae hyn yn digwydd, ac adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ymhen 12 mis.

Heb gyllid ychwanegol, ni fyddaf yn gallu bodloni disgwyliadau'r Gweinidogion o'm rôl a pharhau i ddarparu'r lefel hon o gefnogaeth a chymorth yn y dyfodol.

3.3. Cefnogi'r newid diwylliannol sydd ei angen er mwyn ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae'n amlwg imi fod angen cefnogaeth sylweddol ar gyfer newid diwylliannol ar draws y sector cyhoeddus os yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i lwyddo. Pan gyflwynwyd [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#), fe ailgyfeiriwyd Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (a oedd yn gyfanswm o £12,015,714 yn 2012-13) er mwyn sicrhau "bod staff perthnasol yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt trwy gydol y cyfnod o baratoi ar gyfer, a gweithredu'r Ddeddf". A

hyd at 2012-13, roedd £1.5m ychwanegol ar gael i awdurdodau lleol a'u partneriaid i gynyddu capasiti yn lleol ac i ddechrau paratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf GCLI.

Nid oedd unrhyw gostau o'r fath wedi'u cynnwys yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Yr unig gostau a wynebodd Llywodraeth Cymru oedd costau deddfu a diweddarau eu cynlluniau corfforaethol - mân-newidiadau i'r system bresennol yw'r rhain ac nid y newid sylfaenol sydd ei angen yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Dyfynnir y canlynol yn yr RIA heb unrhyw gostau ynghlwm: "Bydd ymgysylltu â newid diwylliannol yn rhan o waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a byddant yn cael eu hyrwyddo'n fwy cyffredinol drwy waith ehangach Llywodraeth Cymru ar ddatblygu arweinyddiaeth a newid yn y gwasanaeth cyhoeddus."

Dyrannwyd rhywfaint o arian i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ond ni allaf weld unrhyw dystiolaeth o sut y cafodd y nifer fawr o wahanol sectorau a gwmpesir gan y Ddeddf gymorth i ddeall a chyflawni gofynion y Ddeddf. Mae perygl gwirioneddol y bydd hyn yn effeithio ar y graddau y cyflawnir dyheadau'r Ddeddf a'r newid sylfaenol y dylai'r Ddeddf ei greu.

Unwaith eto, rwyf wedi cymryd agwedd arloesol tuag at ddatblygu partneriaethau er mwyn darparu'r adnoddau ar gyfer gwaith fydd yn rhoi arweiniad i gyrff cyhoeddus ac er mwyn ymchwilio i ddulliau newydd o gefnogi newid diwylliannol ond nid ydym yn cwrdd â'r galw hwn (er enghraifft trwy ddarparu cyngor a chymorth penodol ar heriau penodol sy'n wynebu gyrff cyhoeddus).

Dylid canmol y Llywodraeth am greu deddfwriaeth sy'n defnyddio dull cyfannol i gefnogi llesiant yn ei ystyr ehangaf. Mae'n amlwg bod hyn wedi creu llwyfan ar gyfer symleiddio'r dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus ac annog prosesau gwneud penderfyniadau mwy integredig ac rwy'n gobeithio y bydd y Mesur Llywodraeth Leol newydd yn parhau ar y trywydd hwn.

3.4 Yr hyn mae Cyrff Cyhoeddus yn ei ddweud wrthyf am beth maen nhw am ei gael gan fy swyddfa

Eleni, cynhaliodd fy swyddfa ymarfer ymgysylltu sylweddol gyda chyrff cyhoeddus er mwyn dod i ddeall yn well pa gefnogaeth sydd ei angen arnynt. Wedi ymgysylltu fel hyn â chyrff cyhoeddus, mae'n amlwg nad yw'r adnoddau ganddynt i gefnogi mentrau a fyddai'n cefnogi'r newid diwylliannol angenrheidiol.

Hoffent i'm swyddfa ddarparu:

- Un man cyswllt dibynadwy ar gyfer pob un ohonynt o fewn Swyddfa CCD i roi cyngor ar faterion penodol
- Hwyluso rhannu arferion da
- Fframweithiau neu ganllawiau ychwanegol a mwy penodol fesul sector
- Darparu hyfforddiant LICD i sefydliadau a phartneriaethau

- Cyngor a chymorth ynghylch sut maent yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd o dan y Ddeddf
- Hwyluso digwyddiadau dysgu mewn cysylltiad â meysydd blaenoriaeth a sicrhau cynrychiolaeth fyd-eang
- Darparu cefnogaeth a her mwy dwys i helpu cyrff cyhoeddus i feddwl yn drylwyr am bolisiâu neu faterion penodol o safbwynt Deddf LICD
- Gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru a chyrrff archwilio eraill i sicrhau bod agweddau tuag at archwilio yn cefnogi yn hytrach na chyfyngu ar gynnydd o dan y Ddeddf

Fodd bynnag, mae lefelau cyllid presennol ar gyfer fy swyddfa, hyd a lled y swyddogaethau sydd gennyf a'r ffaith mai ychydig iawn yw'r adnoddau yn golygu na fyddaf yn gallu bodloni'r anghenion hyn i'r graddau sydd angen. Mae hyn yn golygu bod risg wirioneddol iawn nad yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ysgogi'r newid a fwriadwyd, ond yn hytrach, ei bod yn canolbwyntio ar gefnogi biwrocraatiaeth cynlluniau a strwythur. Gallai hyn, yn fy marn i, danseilio'n ddifrifol y dyheadau a oedd gan y Llywodraeth wrth basio'r ddeddfwriaeth hon sy'n arwain y byd a niweidio sefyllfa Cymru fel arweinydd byd-eang yn hyn o beth. Ar adeg pan fo sefyllfa Cymru yn y byd yn bwysicach nag erioed a phan fyddwn yn adrodd fel rhan o adolygiad cenedlaethol gwirfoddol y DU i'r Cenhedloedd Unedig ar gynnydd gyda'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, byddai'n amlwg o fudd i Gymru allu dangos i'r byd bod y Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod y Ddeddf yn golygu gwneud yn fwy na dweud.

3.5 Cwmpas fy nghylch gorchwyl yn parhau i ehangu yn ymarferol

Mae wedi dod yn amlwg hefyd bod darpariaethau'r ddeddfwriaeth (ac yn enwedig y nodau llesiant) yn cael eu dehongli mewn ffordd helaeth ac mewn rhai achosion, mewn ffordd sy'n ymddangos yn groes neu fel petai'n mynd y tu hwnt i gwmpas y ddeddfwriaeth gychwynnol trwy gynnwys ceisiadau am ddyletswyddau newydd mewn meysydd penodol sy'n gysylltiedig â'r nodau. Er enghraifft, ymatebodd y Prif Weinidog yn ddiweddar i argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Allanol a Ddeddfwriaeth Ychwanegol ynghylch argymhelliad y *dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymgorffori cytuniadau hawliau dynol rhyngwladol ymhellach yng Nghymru, yn yr un modd â'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (er enghraifft, y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR), neu'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRPD).*

Dywedodd y Prif Weinidog *"Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) fydd yn parhau yn brif offeryn deddfwriaethol i ni yn hyn o beth, o gofio bod y nodau llesiant a osodir yn y Ddeddf honno yn eang o ran cwmpas ac yn darparu'r fframwaith gorau i alluogi camau cydlynol i sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu diogelu yng Nghymru."*

Mae hyn yn golygu bod potensial i gwmpas y Ddeddf ehangu wrth iddi gael ei rhoi ar waith o ddydd i ddydd ar lawr gwlad er nad yw'r goblygiadau cost wedi cael eu hystyried.

3.6 Siarter Datblygu Cynaliadwy

Rydym hefyd wedi dechrau ystyried sut y gallem weithio gyda Llywodraeth Cymru i adeiladu ar y gwaith ar y Siarter DC - cyllid ar gyfer rheolwr perthynas i chwarae rhan allweddol mewn partneriaeth â Busnes yn y Gymuned a Llywodraeth Cymru.

Gallm gynnig cefnogaeth i Lywodraeth Cymru i ysgrifennu Pennod Cymru yn yr Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy gan ddefnyddio, er enghraifft, rhywfaint o'r wybodaeth a gasglwyd o'm gwaith monitro ac asesu hyd yn hyn.

4. Fy Nghais Cyllido 2019-20

Rwy'n gwerthfawrogi bod cyni ariannol wedi effeithio'n ddifrifol ar y Llywodraeth ei hun a bod hynny yn ei dro wedi creu her sylweddol i wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Fodd bynnag, rwy'n credu'n gryf bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn hytrach na gosod baich ychwanegol ar gyrff cyhoeddus, yn cynnig llawer o atebion i'r heriau yr ydym yn eu hwynebu, ond mae'n hanfodol bod buddsoddiad ariannol yn digwydd nawr os yw'r dyheadau hyn i gael eu gwireddu.

4.1 Fy sefyllfa ariannol bresennol a'm polisi cronfeydd wrth gefn

Mae fy [Natganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer 2017-18](#) yn dangos gwariant o £1,433,000, sef cynnydd o 30 y cant ar y cyfnod blaenorol. Balans y Gronfa Gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn oedd £501,000. O hwnnw, mae £316,000 wedi ei ymrwmo i ariannu gwaith parhaus ar fy rhaglen Y Gallu i Greu sy'n gosod sylfeini mewn partneriaeth â saith partner o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yng Nghymru. Daw'r rhaglen hon i ben yn 2019-20. Byddaf yn cadw cronfeydd wrth gefn o tua £130,000 sydd tua 9% o'm cymorth grant cyfredol i gwrdd â galwadau annisgwyl am adolygiadau y byddaf yn barnu bod cyfiawnhad dros eu cynnal o ystyried natur arloesol fy nghylch gorchwyl a'r hinsawdd ansicr gyfredol. Byddaf yn adolygu'r ffigur hwn o dro i dro.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2018-19), mae'r rhagamcanion cyfredol yn dangos y bydd y cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2019 yn gostwng i £243,093. Byddaf yn defnyddio £52.5K i gwblhau prosiect Y Gallu i Greu. Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu trwy drefniadau partneriaeth â chyrff cyhoeddus, preifat a thrydydd sector.

4.2 Cais am Gyllid Opsiwn 1 - £345,000 ychwanegol - i ddiwallu disgwyliadau'r Gweinidog yn briodol wrth gyflawni fy nyletswyddau statudol a chefnogi newid diwylliannol mewn cyrff cyhoeddus yn ddigonol

Rwyf yn gofyn am fwy o gyllid ar gyfer fy Swyddfa fel mater o frys er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy nyletswydd statudol cyffredinol yn iawn a rhoi cymorth i Weinidogion i greu'r newid trawsffurfiol sydd ei angen ar wasanaethau cyhoeddus Cymru i'w gwneud yn addas ar gyfer anghenion heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rwyf hefyd yn gofyn am gyllid sbarduno i ymchwilio a datblygu ffynonellau incwm anllywodraethol.

Bydd rhai o'r costau ychwanegol yn gyfyngedig i ddwy flynedd er mwyn fy ngalluogi i sefydlu ffrwd creu incwm a bydd eraill yn barhaus.

Mae cyllideb Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer 2019-20 yn darparu cyllid o £1.46m ar gyfer gwaith fy Swyddfa ar gyfer 2019-20. Dyma'r dyraniad isaf o unrhyw un o'r Comisiynwyr statudol, £83k yn llai na'r Comisiynydd Plant, £85k yn llai na'r Comisiynydd Pobl Hŷn a £1,591m yn llai na Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg. Yn gefndir i hyn, mae'r cylch gorchwyl statudol ehangaf gennyf fi ac mae dealltwriaeth o ofynion y ddeddfwriaeth ymhlith cyrff cyhoeddus yn isel oherwydd bod y ddeddfwriaeth yn newydd.

Rwyf yn gofyn i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid ychwanegol o £345k ar gyfer fy swyddfa. Mae angen yr arian hwn i:

- Gyflawni fy nyletswyddau statudol yn ddigonol o ran monitro ac asesu'r cynnydd y mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud gyda'r 345 o amcanion llesiant
- Cynnal a gwella ansawdd a lefel fy nghefnogaeth a chyingor i Gyrff Cyhoeddus, gan gynnwys cefnogaeth barhaus i'r Llywodraeth ar bolisiau cyllidebu, datgarboneiddio, cynllunio, trafndiaeth, economaidd a thai.
- Darparu cefnogaeth i'r Llywodraeth ar asesu i ba raddau y dylid cymhwyso'r dyletswyddau presennol yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys alinio asesiadau effaith a cheisiadau am ddyletswyddau deddfwriaethol newydd, er enghraifft, Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig.
- Cefnogi'r newid diwylliannol sydd ei angen er mwyn ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys darparu cyngor, hyfforddiant a chymorth i Lywodraeth Cymru (y gwasanaeth sifil) a'r sectorau y mae ganddi gyfrifoldeb polisi drostynt, gan gynnwys y sectorau cynllunio, trafndiaeth, tai a iechyd.
- Datblygu ac ehangu cysyniad y Labordai Byw sy'n darparu cefnogaeth ddwys i gorff cyhoeddus i ddefnyddio lens y Ddeddf i ddiwygio gwasanaeth neu bolisi (mae hyn yn cael ei beilota ar hyn o bryd gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar fater

gordewdra ymhlith plant ac rydym wedi cael ceisiadau am gefnogaeth debyg gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Cwm Taf ar fater ACE. Mae'r "Labordy Byw" yn lle diogel i gyrff cyhoeddus gymryd agwedd greadigol tuag at ddatrys problemau cymhleth gan ddefnyddio lens cenedlaethau'r dyfodol i brofi ffyrdd o gyflawni gwelliannau sylweddol o ran dylunio polisi, darparu gwasanaethau a llesiant. Caiff labordai eu cynllunio ar y cyd i ddatblygu ffordd fwy treiddgar o edrych ar faterion, gan arwain at weithredu a dysgu parhaus a fydd yn cael ei rannu ledled Cymru. Y nod yw sicrhau sail i'r broses gyda "chwmwl o arloeswyr" sydd ag arbenigedd perthnasol ac sy'n gallu helpu i gael golwg dreiddgar ar bethau, hwyluso'r defnydd o'r pum ffordd o weithio a chefnogi newid.

Yn seiliedig ar lefelau presennol y galw ac asesiad o'r diffyg adnoddau a ddyrannwyd ar draws gwahanol sectorau i gefnogi'r newidiadau sy'n ofynnol gan y Ddeddf, rwy'n asesu bod angen chwe swydd ychwanegol ar gyfer y gwaith hwn ar gost o:

- 1 x Ysgogydd Newid Arweiniol £71,846 (£52,671 cyflog ac argostau)
- 4 x Ysgogydd Newid £241,668 (£44,460 cyflog ac argostau)
- 1 x Cymorth Gweinyddol £30,528 (cyflog £23,001 ac argostau)

4.3 Cais am Gyllid Opsiwn 2 - £55,000 ychwanegol ar gyfer proffilio Cymru ar ôl Brexit

Mae cyfle mawr i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r llwyfan y mae'r Ddeddf yn ei ddarparu ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol a hyrwyddo Cymru i'r byd. Mae'r adroddiad cenedlaethol gwirfoddol (VNR) i'r Cenhedloedd Unedig ar gynnydd tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy sy'n cael ei gynhyrchu gan Lywodraeth y DU y flwyddyn nesaf yn gyfle sylweddol i Gymru ddwyn sylw at ei dull o weithio sy'n arwain y byd, yn enwedig gan mai dyma'r flwyddyn y byddwn yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae lle i Gymru gynhyrchu ei hadroddiad cenedlaethol gwirfoddol ei hun (y gellir ei fewnosod yn adroddiad y DU) a defnyddio hwn fel llwyfan i hyrwyddo Cymru yn Fforwm Gwleidyddol Lefel Uchel (HLPF) y Cenhedloedd Unedig yr haf nesaf. Mae'r Comisiynydd wedi paratoi'r ffordd i'r Llywodraeth ymgysylltu ar y lefel hon trwy ei chyflwyniad yn yr HLPF eleni. Mae hynny a gwaith yn hyrwyddo'r Ddeddf gyda sefydliadau rhyngwladol wedi ennyn diddordeb ymhlith ystod o randdeiliaid rhyngwladol, gan gynnwys Llywodraethau Seland Newydd a Ffrainc, a dirprwyath o Feiri o Tsieina.

Er mwyn i Gymru wneud y gorau o'r cyfle sy'n dod gyda'r VNR, bydd angen adnoddau i gynhyrchu adroddiad ac i wneud gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n rhan ofynnol o'r broses VNR. Rwyf wedi cynnig gweithio gyda'r Llywodraeth i gefnogi'r gwaith hwn ac i alluogi'r Llywodraeth i ddefnyddio gwaith fy Swyddfa i ddangos sut mae Cymru'n cyfrannu at y Nodau Datblygu Cynaliadwy ond bydd angen rhywfaint o adnoddau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol hon a'r nesaf i alluogi fy swyddfa i gefnogi'r Llywodraeth yn y

gwaith o lunio'r adroddiad ac adnabod a sicrhau cyfleoedd i'r Llywodraeth hyrwyddo dull Cymru o weithio pan gyhoeddir yr adroddiad y flwyddyn nesaf.

Rwy'n amcangyfrif y byddai angen adnoddau o £55k ar gyfer aelod o staff i gydlynu'r gwaith a helpu i gynhyrchu'r adroddiad ac ymgymryd â'r gwaith ymgysylltu sydd ei angen i gyfrannu ato.

Gallai'r gwaith hwn gael ei amsugno yn y cyfamser (h.y. ar gyfer paratoi'r adroddiad ac adnabod cyfleoedd ymgysylltu) gan un o'r swyddi Ysgogydd Newid uchod ac felly pe bai cytundeb ar Opsiwn 1, dim ond ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu y byddai angen cyllid ychwanegol a byddai hynny'n £10k.

4.4 Cais am Gyllid Opsiwn 3 - £132k ychwanegol i gychwyn creu ffrydiau incwm anllywodraethol

O gydnabod y pwysau parhaus ar wariant cyhoeddus, rwyf wedi llwyddo droeon i ddod ag adnoddau ychwanegol i'm swyddfa trwy bartneriaethau a secondiadau. Wrth edrych ymlaen, rwyf wedi bod yn edrych hefyd ar sut y gall fy Swyddfa gynrig cefnogaeth a chynghor gwell ar yr agenda newid trawsffurfiol gan ddefnyddio arian ac adnoddau a ddaw o ffynonellau eraill, yn enwedig y sector preifat lle mae cyfle, rwy'n credu, i godi tâl am wasanaethau fel hyfforddiant a datblygu. Mae hyn yn cyd-fynd â'm cred bendant bod angen, er mwyn cyflawni dyheadau'r Ddeddf, inni annog cynaliadwyedd y tu hwnt i'r sector cyhoeddus.

Yr ydym eisoes wedi gweld diddordeb yn hyn o beth gan Keolis Amey/Trafnidiaeth Cymru wedi i ni weithio gyda hwy ar y fasnachfaint rheilffordd ac maent yn awyddus i gwrdd â'r ymrwymiad a osodwyd ganddynt i gyflawni'r nodau llesiant drwy'r contract ac mae angen cymorth pellach arnynt i wneud hynny. Rydym hefyd wedi profi diddordeb gan nifer o sefydliadau a phartneriaid eraill yn y sector preifat sydd am ddeall gofynion y Ddeddf yn well er mwyn hwyluso eu gwaith gyda'r sector cyhoeddus. Mae'r Contract Economaidd yn ysgogydd pwysig ar gyfer hyn a thrwy fy ngwaith yn ymgysylltu â'r sector preifat rwyf wedi gweld bod diddordeb ac ymrwymiad cynyddol i gynaliadwyedd a'r cysyniad ehangach o lesiant yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ymhlith cwmnïau Cymreig.

Mae'r Ddeddf yn caniatáu i mi godi tâl am wasanaethau ond mae'n fy ngwahardd rhag gwneud elw ac felly fy mwriad fyddai datblygu gwasanaethau y gellid eu defnyddio gan y sector cyhoeddus hefyd, er enghraifft datblygu a chyflwyno pecynnau hyfforddiant, datblygu digwyddiadau a chysylltiadau sy'n dod â'r sgiliau sy'n cael eu datblygu yn y sector preifat e.e. datblygiadau mewn arloesedd digidol, i anghenion gwasanaethau'r sector cyhoeddus.

Mae fy nhîm wedi cael golwg heb fod yn fanwl yr haf hwn ar opsiynau cynhyrchu incwm, ac mae hyn wedi cadarnhau bod fy swyddfa mewn man pontio deniadol ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat lle mae galw cynyddol ac heb ei ddiwallu o'r ddwy ochr i gael gwell dealltwriaeth o'r Ddeddf a datblygu cynaliadwy ar waith.

Byddai adnoddau'n cael eu defnyddio i ymchwilio i gyfleoedd posibl i gynhyrchu incwm yn y meysydd canlynol:

- Gweithio gyda Busnes yn y Gymuned

Mae BITC wedi datblygu erfyn tracio busnes cymdeithasol y gellid ei alinio â'r gwirwyr teithiau sy'n profi cynnydd cyrff cyhoeddus gyda'r Ddeddf. Byddai'r gwaith hwn yn cynorthwyo'r sector preifat i ddeall y cyfraniad y gallant ei wneud i'r Nodau Llesiant.

- Hyfforddiant ar ofynion y Ddeddf

O'n hymchwil, credaf fod yna gyfle gwirioneddol i gysylltu nodau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol y sector preifat gyda mentrau sy'n seiliedig ar gyfranogiad mewn cymunedau a grwpiau.

- Gwella enw da

Mae llygad y byd ar Gymru a'n dull o fynd i'r afael â datblygu cynaliadwy. Bu cryn ddiddordeb hyd yn hyn yn ein gwaith ac rwy'n credu bod potensial i rannu a chyfrannu ein dysgu ar y llwyfan rhyngwladol trwy, er enghraifft, drefnu cynhadledd Datblygu Cynaliadwy fyd-eang flynyddol gyda'r costau'n dod i law trwy nawdd gan gwmnïau yn y sector preifat.

- Gwella Gwybodaeth a Chydnabyddiaeth

Mae bwch gwybodaeth ynglŷn â rhoi Datblygu Cynaliadwy ar waith ar draws y DU a'r byd. Gan weithio mewn cydweithrediad â'r Academi, colegau a Phrifysgolion, credwn fod lle i gynnig rhaglen arweinyddiaeth Datblygu Cynaliadwy achrededig ddwys ar gyfer arweinwyr cyhoeddus a phreifat, cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae angen buddsoddiad yn y tymor byr i roi cychwyn i'r ffrydiau gwasanaeth hyn fyddai'n cynhyrchu incwm. Byddai'r buddsoddiad yn mynd tuag at ddatblygu'r gwasanaeth a gynigir a chanfod cyfleoedd i'r gwaith hwn ddarparu cefnogaeth briodol i'r sectorau cyhoeddus a phreifat.

Felly, rwyf yn gofyn am £132,263 am gyfnod o 2 flynedd (2019-20 a 2020-21) ar gyfer dwy swydd i ddatblygu a sefydlu gwasanaethau sy'n cynnwys:

1 x Ysgogydd Newid Arweiniol £71,846

1 x Ysgogydd Newid £60,417

Byddai hyn yn gostwng 50 y cant i £66,132 yn 2022 ac yn cael ei ariannu gan yr incwm fyddai'n cael ei gynhyrchu o'r gwasanaethau a ddarperir.

Gallai'r gwaith hwn hefyd gael ei amsugno gan un o'r swyddi Ysgogydd Newid uchod a gynhwysir yn opsiwn 1.

5 Fy Amcangyfrif Blynyddol 2019-20

Mae'r tabl isod yn dangos sut y byddai fy nghyllid 2019-20 yn cael ei ddyrannu yn ddibynnol ar yr opsiynau a nodir yn adran 4 uchod:

Disgrifiad	Amcangyfrif 2019-20 Dim Newid £000	Amcangyfrif 2019-20 Opsiwn 1 £000	Amcangyfrif 2019-20 Opsiwn 2 £000	Amcangyfrif 2019-20 Opsiwn 3 £000
Costau cyflogi	1,110	1,455	1,165	1,242
Adeiladau	95	95	95	95
Costau swyddfa	30	30	30	30
Hyfforddiant a recriwtio	12	12	12	12
Teithio a chynhaliaeth	36	36	36	36
Archwilio mewnol ac allanol	30	30	30	30
Cyfathrebu	51	51	51	51
TG (Refeniw)	36	36	36	36
Costau Prosiectau	274	274	274	274
Wrth Gefn	30	30	30	30
Cyfanswm Gwariant Refeniw	1,704	2,049	1,759	1,836
Llai costau heb fod yn arian parod	(11)	(11)	(11)	(11)
Plws gwariant cyfalaf (TG)	5	5	5	5
Llai: Tanwariant dd/y o'r flwyddyn flaenorol	(238)	(238)	(238)	(238)
Gofyniad arian parod net	1,460	1,805	1,461	1,592

Nodiadau i'r tabl:

Costau cyflogi

Mae'r gost hon yn cwmpasu cost lawn cyflogi neu secondio staff gan gynnwys costau YG a phensiwn y cyflogwr. Mae hefyd yn cwmpasu fy nghostau cyflog fy hun (fel y'i penderfynir gan Weinidogion Cymru) a chost taliadau i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Treuliau adeilad a swyddfa

Mae treuliau adeilad a swyddfa yn cynnwys gwariant ar rent, ardrethi, atgyweiriadau a chynnal a chadw, diogelwch, cyfleustodau, deunydd ysgrifennu ac yswiriant. Eleni, mae fy nghostau adeilad a swyddfa wedi cynyddu 10 y cant. Mae hyn o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth Cymru i sicrhau prydles tymor byr pan ddechreuais i yn y swydd.

Cost TG (refeniw a chyfalaf)

Y costau refeniw parhaus sy'n gysylltiedig â TG yw costau misol ar gyfer gwasanaethau a chostau cymorth ar gyfer galluogi gwasanaeth data diogel i'r holl ddefnyddwyr ar y staff.

Ni fydd llawer o wariant cyfalaf.

Cyfathrebu

Mae'r costau hyn ar gyfer cynnal a chadw gwefan, cyfieithu a digwyddiadau a gweithdai sy'n ymwneud ag ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Costau prosiectau

Am gyngor a chymorth arbenigol y mae eu hangen yn ystod y flwyddyn er mwyn ymarfer fy Nyletswydd Gyffredinol.

Wrth Gefn

Mae £30,000 o arian wrth gefn cyffredinol ac ar gyfer gwaith heb ei gynllunio wedi'i gynnwys yn yr amcangyfrif. Gallai costau ychwanegol o'r fath fod yn gysylltiedig, er enghraifft, gydag adnoddau staff dros dro ychwanegol a sicrhau cyngor a chymorth ar gyfer digwyddiadau annisgwyl.

Llif arian nad yw'n arian parod

Mae hyn yn gysylltiedig â'r costau hynny lle mae tâl ar y cyfrif gwariant ond dim taliad arian parod e.e. symudiad ar gredydwy'r a dyledwy'r, yn ogystal â thaliadau dibrisiant ac amorteiddio.

Gofyniad arian parod net

Dyma'r arian y bydd angen i mi ei dynnu gan Weinidogion Cymru i gwrdd â'm costau disgwylidig ar gyfer 2019-20.

6 Casgliad

Yn ystod y cyfnod hwn o lymder, rwy'n gwybod bod rhaid i bob punt y byddaf yn ei gwario, nid yn unig gyfrif ond mynd ymhellach a dangos bod y cyfraniad yn ehangach, y buddiannau'n ymledu ar draws cymunedau a'n llesiant yn gwella.

Sut byddaf yn gwneud hyn?

Mae angen i mi a'm swyddfa barhau i arwain trwy esiampl ac yng ngweddill fy nhymor, rwyf am fuddsoddi ynni ac adnoddau ar ddangos i gyrff cyhoeddus beth a olygwn wrth gydweithio ac integreiddio, ymgysylltu'n iawn â'r gymuned a'u cynnwys yn ymarferol a dangos sut, trwy weithio ar draws sectorau a chael yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn sail i'n penderfyniadau busnes, y gallwn ddod â gwelliannau a buddiannau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol go iawn i fywyd Cymru. Byddai ariannu opsiwn 1 yn rhoi'r adnoddau i mi i wneud hyn.

Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Mis Hydref 2018